**Rhif: WG38167**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Dyddiad cyhoeddi: 7 Awst 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 15 Tachwedd 2019

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar ddrafft cynllun cenedlaethol newydd i Gymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), dros y cyfnod rhwng 7 Awst a 15 Tachwedd 2019. |
| **Sut i ymateb** | Dylech ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb. Gellir cyflwyno ymatebion mewn sawl ffordd:<br><br>**Ar-lein:** https://llyw.cymru/ymgyngoriadau<br><br>**E-bost:** ffdc@llyw.cymru<br><br>**Post:** Tîm y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y Gangen Polisi Cynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ<br><br>Wrth ymateb nodwch p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad.<br><br>Byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau mewn mannau cyhoeddus ledled Cymru ym mis Medi a mis Hydref, y gallwch ddod iddynt a siarad â ni am yr ymgynghoriad hwn. Bydd angen gwneud apwyntiad i gymryd rhan yn y sesiynau hyn. Bydd manylion ar ddyddiadau, lleoliadau a sut i archebu eich lle ar ein tudalennau gwe cyn hir. Gallwch hefyd anfon neges e-bost neu ein ffonio i gael rhagor o wybodaeth. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Ar y cyd â'r ddogfen hon ceir Atodiadau.<br><br>Ceir manylion cyffredinol pellach ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar ein gwefan:<br><br>https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol?_ga=2.164736127.1563076048.1571131902-1944581037.1569938570 |

| | |
|---|---|
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>**E-bost:** ffdc@llyw.cymru<br><br>**Rhif ffôn:** 0300 025 3261 neu 0300 025 6657 |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Beth yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

Bydd y FfDC yn gynllun 20 mlynedd i Gymru hyd at 2040. Mae'n ymdrin â'r materion sy'n bwysig i lwyddiant Cymru, gan gynnwys tai, ynni, yr economi, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae'n nodi lle y dylai datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ddigwydd, lle mae'r ardaloedd twf allweddol, pa seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen a sut y gall Cymru gyfrannu at y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Mae a wnelo â gwneud y defnydd gorau o adnoddau, creu cymunedau iach a hygyrch a diogelu ein hamgylchedd.

Nid oes a wnelo'r FfDC â materion lleol yr ymdrinnir â nhw fel arfer ar lefel awdurdod lleol – ond, yn hytrach, mae'n edrych yn ehangach ar yr hyn sydd ei angen ar Gymru, yn gyffredinol, er mwyn sicrhau ffyniant a llesiant nawr ac yn y dyfodol.

## Beth mae'r FfDC drafft yn ei wneud?

Mae'r FfDC drafft yn nodi polisïau datblygu i Gymru yn gyffredinol a rhanbarthau Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Mae'r dull gweithredu rhanbarthol yn cyd-fynd â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru ac yn ei gwneud yn bosibl i bolisi gael ei weithredu mewn ffordd gyson ledled Cymru.

Mae'r FfDC drafft yn nodi canlyniadau cyffredinol sy'n weledigaeth ar gyfer newid dros yr 20 mlynedd nesaf ac sy'n sail i'w bolisïau a'i gynigion.

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried effeithiau'r FfDC. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn helpu i wneud hyn.

## Yr ymgynghoriad hwn

Rydym am gael eich barn ar y FfDC drafft. Darperir y dogfennau canlynol i'ch helpu i ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

- y FfDC drafft (sydd hefyd ar gael ar ffurf argraffedig)
- fersiwn hawdd ei darllen o'r FfDC drafft (sydd hefyd ar gael ar ffurf argraffedig)
- fersiwn o'r FfDC sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc
- taflen sy'n nodi cefndir y FfDC ac sy'n crynhoi cynnwys y FfDC drafft (ar gael ar ffurf argraffedig)
- fersiynau llawn a chryno o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig
- adroddiad llawn ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Dyma restr o bolisïau, strategaethau, ymgynghoriadau, ymchwil, cyhoeddiadau a deunyddiau sydd wedi cefnogi datblygiad drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae linciau wedi'u darparu lle bo hynny'n bosibl. Mae ein tudalennau gwe FfDC yn y broses o gael eu mudo i blatfform newydd ac mae'n bosibl na fydd linciau'n gweithio yn y tymor byr. Os yw hyn yn digwydd, cysylltwch â ni i gael y linc cywir neu gopi o'r ddogfen.

| Cyhoeddiadau FfDC | Cyhoeddwyd |
|---|---|
| Animeiddiad | Chwefror 2017 |
| Adroddiad Digwyddiad Ymgysylltu | Gorffennaf 2017 |
| Adroddiad Digwyddiad Ymgysylltu | Ebrill 2018 |
| Adroddiad interim yr arfarniad cynaliadwyedd integredig | Ebrill 2018 |
| Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Ebrill 2018 |
| Taflen Opsiwn a Ffefrir | Ebrill 2018 |
| Adroddiad Sgrinio HRA Rhagarweiniol | Ebrill 2018 |
| Crynodeb o Ymgysylltu a Chyfranogi | Gorffennaf 2018 |
| Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd | Gorffennaf 2019 |
| Cynllun Ymgysylltu | Awst 2019 |

| Ymgyngoriadau FfDC | |
|---|---|
| Cynigion yn ymwneud â Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol | Chwefror 2016 |
| Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau | Rhagfyr 2016 |
| Gwerthusiad Cynaliadwyeddlintegredig | Ebrill 2017 |
| Y Prif Faterion,Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir | Ebrill 2018 |
| **Ymchwil FfDC** | |
| Astudiaeth Adnabod Ardaloedd Rhanbarthol | Awst 2017 |
| Asesiad o Botensial Ynni Solar a Gwyn tar y Tir yng Nghymru | Awst 2019 |
| Astudiaeth Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig | Awst 2019 |
| **Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru sydd wedi llywio datblygiad y FfDC** | |
| Angen a'r galw am dai: sail-2018 | Ionawr 2019 |
| Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy | Mai 2019 |
| Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd | Mai 2019 |
| Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru fesul deiliadaeth: sail-2018 | Mehefin 2019 |

| Rhaglenni, Cynlluniau a Strategaethau Llywodraeth Cymru Sydd wedi llywio datblygiad y FfDC | |
|---|---|
| Strategaeth drafnidiaeth Cymru | Ebrill 2008 |
| Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ar gyfer twf a swyddi | Mai 2012 |
| Metro De Cymru | Chwefror 2016 |
| Metro gogledd-ddwyrain Cymru | Mawrth 2017 |
| Cymraeg 2050 | Gorffennaf 2017 |
| Y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol | Awst 2017 |
| Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol | Medi 2017 |
| Cynllun gweithredu ffonau symudol | Hydref 2017 |
| Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi | Rhagfyr 2017 |
| Maes Awyr Caerdydd 2040 - Uwchgynllun | Gorffennaf 2018 |
| Ardaloedd Menter yng Nghymru – Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan | Medi 2018 |
| Rhwydwaith rheilffyrdd Cymru: yr achos dros fuddsoddi | Medi 2018 |
| Ardal Fenter Dyfrffordd y Daugleddau | Hydref 2018 |
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | Hydref 2018 |

| | |
|---|---|
| **Polisi Cynllunio Cymru** | Rhagfyr 2018 |
| **Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel** | Mawrth 2019 |
| **Y Strategaeth ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol** | Mehefin 2019 |
| **Cynlluniau Rheoli Traethlin** | Dyddiadau amrywiol |
| **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** | I'w gadarnhau |
| **Rhaglenni, Cynlluniau a Strategaethau Llywodraeth y DU sydd wedi llywio datblygiad y FfDC** | |
| **North West Nuclear Arc Partnership Science and Innovation Audit**<br><br>(Nid yw'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg) | 2018 |
| **The Road to Zero**<br>(Nid yw'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg) | Gorffennaf 2018 |

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Eich enw | |
| Eich cyfeiriad | |
| Dewis fanylion cyswllt (e-bost/ffôn/post) | |
| Sefydliad (lle bo'n berthnasol) | |

## 1. Canlyniadau'r FfDC (pennod 3)

Mae'r FfDC wedi cynnig 11 o ganlyniadau fel uchelgais ar gyfer ble rydym am fod ymhen 20 mlynedd.

- Yn gyffredinol, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yr 11 o ganlyniadau yn weledigaeth realistig ar gyfer y FfDC?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

- I ba raddau rydych yn cytuno â'r 11 o ganlyniadau fel uchelgeisiau ar gyfer y FfDC?

| Cytuno â phob un ohonynt | Cytuno â'r rhan fwyaf ohonynt | Cytuno â rhai ohonynt | Ddim yn cytuno â'r un ohonynt | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

- Os ydych yn anghytuno ag unrhyw rai o'r 11 o ganlyniadau, dywedwch wrthym pam:

| |
|---|
| |

**2. Strategaeth Ofodol (pennod 4.1- 4.2, polisïau 1 - 4)**

Mae **strategaeth ofodol** y FfDC yn fframwaith arweiniol ar gyfer y lleoedd hynny y bydd newid ar raddfa fawr a datblygiadau o bwys cenedlaethol wedi'u canolbwyntio arnynt dros yr 20 mlynedd nesaf.

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r strategaeth ofodol a'r egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu mewn...

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardaloedd trefol (Polisïau 1, 2 a 3) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ardaloedd gwledig (Polisi 4) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

- Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y strategaeth ofodol neu'r egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu mewn ardaloedd trefol a gwledig, dywedwch wrthym:

| |
|---|
| |

### 3. Tai Fforddiadwy (polisi 5)

Mae'r FfDC yn nodi'r dull gweithredu ar gyfer darparu tai fforddiadwy, gan annog cynghorau, landlordiaid cymdeithasol a busnesau adeiladu bach a chanolig i adeiladu mwy o gartrefi.

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull o gynyddu nifer y tai fforddiadwy?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

- Os ydych yn anghytuno, ym mha ffyrdd eraill y gall y FfDC fynd ati i gyflenwi tai fforddiadwy?

### 4. Parthau Gweithredu Ffonau Symudol (polisi 6)

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd nodi parthau gweithredu ffonau symudol yn effeithiol o ran gwella signal ffonau symudol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

- Os ydych yn anghytuno, ym mha ffyrdd eraill y gall y FfDC wella signal ffonau symudol yn yr ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig ar hyn o bryd?

**5. Cerbydau Allyriadau Isel (polisi 7)**

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd polisi 7 yn galluogi ac annog cyflwyno seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

- Os ydych yn anghytuno, ym mha ffyrdd eraill y gall y FfDC alluogi ac annog cyflwyno seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn?

**6. Seilwaith Gwyrdd (polisïau 8 a 9)**

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull o gynnal a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**7. Ynni Adnewyddadwy a Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol (polisïau 10-15)**

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â pholisïau'r FfDC i leihau allyriadau carbon yng Nghymru drwy ddefnyddio...

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiadau gwynt a solar mawr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhwydweithiau gwres rhanbarthol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

- Os ydych yn anghytuno â dulliau'r FfDC o ymdrin â seilwaith gwyrdd, ynni adnewyddadwy neu rwydweithiau gwres rhanbarthol, pa ddulliau gweithredu amgen y dylem eu hystyried er mwyn helpu Cymru i wella ei bioamrywiaeth a newid i economi carbon isel?

| |
|---|
| |

**8. Y Rhanbarthau (polisi 16)**

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol wedi'u llunio ar lefel ranbarthol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Mae'r FfDC yn nodi tri rhanbarth cyffredinol yng Nghymru, pob un â'i gyfleoedd a'i heriau unigryw ei hun. Y rhanbarthau hyn yw Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru  a De-ddwyrain Cymru.

**9. Gogledd Cymru (polisïau 17-22)**

Rydym wedi nodi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel y prif ffocws ar gyfer datblygu yng Ngogledd Cymru.  Caiff llain las newydd ei chreu er mwyn rheoli'r ffurf ar dwf.  Nodir bod gan nifer o drefi arfordirol rolau rhanbarthol allweddol i'w chwarae, tra rydym yn cefnogi twf a gwaith datblygu ym Mhorthladd Caergybi.  Byddwn yn helpu i wella seilwaith trafnidiaeth yn y rhanbarth, gan gynnwys Metro Gogledd Cymru, ac yn helpu i wella cysylltedd â Lloegr.  Cydnabyddir y gallai Gogledd-orllewin Cymru gyflenwi ynni carbon isel ar raddfa strategol.

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r polisïau a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer rhanbarth y Gogledd?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**10. Canolbarth a De-orllewin Cymru (polisïau 23-26)**

Bae Abertawe a Llanelli yw'r brif ardal drefol yn y rhanbarth a'r lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer twf.  Rydym hefyd yn nodi bod nifer o drefi gwledig a threfi marchnad, a phedair Tref Hafan yn Sir Benfro, o bwys rhanbarthol.  Mae Dyfrffordd y Ddau Gleddau o bwys cenedlaethol ac rydym o blaid ei datblygu.  Rydym yn cefnogi cynigion ar gyfer Metro Bae Abertawe.

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r polisïau a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin.

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**11. De-ddwyrain Cymru (polisïau 27-33)**

Yn Ne-ddwyrain Cymru rydym yn bwriadu cynyddu rôl Caerdydd fel y brifddinas a sicrhau mwy o dwf cynaliadwy yng Nghasnewydd a'r Cymoedd. Bydd llain las o amgylch Casnewydd a rhannau dwyreiniol y rhanbarth yn cefnogi'r strategaeth ofodol ac yn canolbwyntio gwaith datblygu ar ddinasoedd a threfi sy'n bodoli eisoes. Bydd Datblygu sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth, sy'n defnyddio lleoliadau sydd â gorsafoedd rheilffordd prif linell a gorsafoedd Metro, yn llywio'r ymagwedd tuag at ddatblygu ledled y rhanbarth. Mae cefnogaeth o blaid tyfu a datblygu Maes Awyr Caerdydd.

- I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r polisïau a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer rhanbarth y De-ddwyrain?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | *Ddim yn gwybod* | *Dim barn* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ddull gweithredu neu bolisïau'r FfDC ar gyfer y tri rhanbarth, dywedwch wrthym. Os oes gennych unrhyw ddewisiadau amgen, esboniwch nhw a dywedwch wrthym pam y byddent yn well, yn eich barn chi.

| |
|---|
| |

**12. Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig**

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig er mwyn asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynllun. Nododd yr adroddiad nifer o ddangosyddion monitro, gan gynnwys iechyd, cydraddoldebau, y Gymraeg, yr effaith ar gymunedau gwledig, hawliau plant, newid yn yr hinsawdd a datblygu economaidd.

- A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig? Nodwch unrhyw ddangosyddion monitro amgen eraill a fyddai'n atgyfnerthu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, yn eich barn chi.

| |
|---|
| |

## 13. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r FfDC, cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Diben proses yr Asesiad yw nodi ac asesu unrhyw ‘effeithiau sylweddol’ a gaiff y cynllun ar safleoedd megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer adar, a mynd i'r afael â nhw.

- A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

| |
|---|
| |

## 14. Y Gymraeg

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r FfDC yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

| |
|---|
| |

Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y FfDC arfaethedig, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau:

I. ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
II. nad yw'n cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| |

**15. Sylwadau Pellach**

- A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ar y FfDC, neu unrhyw gynigion amgen y dylem eu hystyried, yn eich barn chi?

| |
|---|
| |

**16. A ydych yn...?**

| | |
|---|---|
| Rhoi eich ymateb personol eich hun | ☐ |
| Cyflwyno ymateb ar ran sefydliad | ☐ |

| | |
|---|---|
| **Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu gyda Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch yma** | ☐ |